

Adroddiad i Eco'r Wyddfa (Gorffennaf 2010)
DIWRNOD SGILIAU BLWYDDYN 7

Cynhaliwyd y gweithgareddau hyn o bawn Mercher, Mai y chweched ar hugain, hyd at amser cinio dydd Gwener yr wythfed ar hugain, ar gyfer dau ddosbarth ym mlwyddyn 7 sef 7S a 7N.

Fel ysgol penderfynwyd mai un ffordd o ymateb i'r 'Fframwaith Sgiliau' fyddai cynnal diwrnodau sgiliau o'r math yma gyda gwahanol adrannau yn cydweithio i baratoi tasgau a'r pwyslais ar feithrin sgiliau'r disgyblion. Mrs Catrin Wyn Jones o'r adran Gymraeg, Mrs Sian Owen, Celf a Mr Dylan Parri, Daearyddiaeth fu'n paratoi'r gweithgareddau ar gyfer blwyddyn 7 o dan arweiniad Mrs Gwenno Bebb.

Daeth yr athrawon a'r ddau ddosbarth at ei gilydd i'r Llyfrgell bawn Mercher er mwyn cael cyflwyniad i'r gwaith oedd o'u blaenau a'r ffordd wahanol y byddent yn mynd ati i weithio. Thema'r gwaith oedd Llyn Padarn Trwy'r Canrifoedd ac eglurwyd byddai'r disgyblion eu hunain yn cael penderfynu pa fath o waith roeddent am ei greu ar gyfer arddangosfa dan y pennawd hwnnw. Roedd hi'n wych gweld y disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd i rannu syniadau ac yn gwneud penderfyniadau trostynt eu hunain ynglŷn â phwy fyddai'n gwneud beth yn eu grŵp hwy.

Y bore canlynol i ffwrdd â ni i Lanberis i gasglu gwybodaeth. Ar y ffordd cawsom gyfle i adael y bus ym Mhen Llyn er mwyn cerdded at Graig yr Undeb cyn dychwelyd at y bont i edrych ar yr olygfa o'r llyn a'r mynyddoedd o'r fan honno a darllen y ddwy gerdd sydd mewn efydd yno.

Wedi cyrraedd Llanberis cerddasom draw at y llecyn islaw Ysbyty'r Chwarel, lle gwych i edrych draw at y pentref ei hun. Yno roeddem wedi trefnu cyfarfod Dafydd Whiteside Thomas er mwyn gwrando arno yn sôn am chwedlau yn gysylltiedig â'r ardal. Gwrandawodd pawb yn astud ar ei hanesion am dylwyth teg a chewri o bob math. Pan gafodd y plant gyfle i ofyn cwestiynau gofynnodd L 'sut ydach chi'n gwybod cymaint!' Roedd pawb wedi rhyfeddu at wybodaeth Mr Thomas ac wedi mwynhau clywed ei straeon.

Draw â ni wedyn i Gastell Dolbadarn i ystyried lleoliad yr adeilad a dysgu mwy am rai o'r tywysogion Cymreig a fu'n byw yno. Bu'r plant yn brysur yn gwneud nodiadau yn ystod y bore, tynnu lluniau a sgetcho cyn i ni dychwelyd i'r ysgol erbyn amser cinio.

Am weddill y diwrnod a thrwy'r bore canlynol bu'r disgyblion wrthi'n ddiwyd yn paratoi gwaith ar gyfer yr arddangosfa. Erbyn amser cinio dydd Gwener roedd cyflwyniadau photostory a phwynt pŵer wedi eu cwblhau, lluniau a mapiau wedi eu labelu, modelau o chwedlau'r tylwyth teg a Chastell Dolbadarn wedi eu peintio a straeon, disgrifiadau a cherddi wedi eu hysgrifennu.

Wedi cwblhau'r gwaith cafodd pawb gyfle i feddwl am y ffordd roeddent wedi gweithio a sut roeddent wedi dysgu. Wrth lenwi eu ffurflenni hunan arfarnu roedd hi'n amlwg bod y disgyblion wedi mwynhau'r cyfle i weithio ar brosiect o'r math yma oedd yn cyfuno gwahanol bynciau ac yn meithrin eu sgiliau. Bydd yr Wythnos Drawsgwricwlaidd sy'n digwydd rhwng y pumed a'r nawfed o Orffennaf yn gyfle i'r disgyblion adeiladu ar y gwaith yma.